CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 8fed o FAWRTH 2021 AM 6.30y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

YN BRESENNOL :	Cyng. Margaret Thomas	-	CADEIRYDD
	Cyng. Ieuan G. Davies		Cyng. Arwel Môn Hughes
	Cyng. Victor Hughes		Cyng. Terry Jones
	Cyng. Gwenan Ll. Evans		Cyng. Jamie Jones
	Cyng. John Lee		Cyng. J. Huw Owen
	Cyng. Christine Roberts		
	Cyng. Richard Parry – *Cael trafferth Cysylltu i Linc TEAMS.*		

HEFYD YN BRESENNOL :	Cyng. Dylan W. Rees	-	Cynghorydd Sir
	Mr. H. Rhys Parry	-	Clerc
	Ms. Linda Powell	-	Cymhorthydd Clerigol.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod ac yn diolch iddynt am ymuno trwy Gyfrwng TEAMS.

20/094 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Non W. Parry - Dirprwy Faer
Cyng. J. Egryn Lewis.

20/095 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

20/096 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolwyr.
Cadeirydd yn adrodd fod dim Cynrychiolwyr o'r Heddlu yn bresennol yn y Cyfarfod heno. Bydd PCSO's yn ymweld â'r Swyddfa i archwilio'r Camerâu CCTV pan fydd digwyddiadau gwrthgymdeithasol yn mynd ymlaen yn y dref. Erbyn hyn, mae'r Heddlu yn gallu edrych ar y Camerâu o'r Orsaf Heddlu ond yn dod i'r Swyddfa pan mae angen gwneud "Burn" o'r recordiau.

20/097 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 08.02.2021**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Victor Hughes yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion.

20/098 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 08.02.2021**
Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

20/099 **CYNLLUNIO**

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO MIS CHWEFROR 2021 -** Derbyn - Dim Trafodaeth.

20/100 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBON GAN Y MAER

Cadeirydd yn datgan fod dim cyfathrebon i'w adrodd yn ôl, a'i bod yn cadw cysylltiad yn rheolaeth gyda staff y Swyddfa. Cadeirydd yn cadarnhau fod y Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus gyda phryniant Tir Penlan ar ymylon y Dref i ddatblygu Mynwent Newydd. Clerc i adrodd ymhellach o dan Eitem 20/102.1 o'r Rhaglen.

20/101 MATERION YN CODI GAN AELODAU

Clerc yn cadarnhau fod dim materion wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa. **Derbyn.**

20/102 ADRODDIAD Y CLERC

1 **Ehangu'r Fynwent -** Clerc yn adrodd fod Cyfarfod wedi ei gynnal ar yr 2ail o Fawrth 2021 rhwng Dirprwyo'r Cyngor Tref a Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn i drafod y camau nesaf. Un o ofynion Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn ydyw fod Cyd-gais i gyflwyno'r Cais Cynllunio yn cael ei baratoi a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Sir mor fuan ag y bo modd. Clerc yn cadarnhau ei fod yn symud ymlaen gyda hyn fel mater o frys.
Cyng. Victor Hughes yn awgrymu fod cynrychiolydd o'r Cyngor Tref yn gwneud ymholiadau gyda pherchenogion y tŷ ar ffiniau'r tir, i holi os oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r Cyngor yma ddatblygu Mynwent Newydd ar lecyn o dir cyfagos i'w eiddo.
Cadeirydd yn ymateb ei bod wedi ymweld â pherchnogion y tŷ, sydd wedi cadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r Cyngor Tref ddatblygu Mynwent Newydd yn yr ardal yma.
Cadeirydd yn adrodd ymhellach, mai'r camau nesaf ydyw derbyn anghenion Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â materion Cynllunio/Priffyrdd, o fewn y pythefnos nesaf, ac ateb yn ôl i'r Cyngor Llawn nesaf ar hyn. **Derbyn.**

2 **(a) Cae Criced -** Clerc yn adrodd fod dim cynnydd wedi ei wneud gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr i gwblhau'r trosglwyddiad o'r Cae Criced i'r Cyngor Tref. Yn y cyfamser, Clerc wedi cysylltu gydag un o'r Ymddiriedolwyr ac wedi gofyn iddo roi pwysa ar y Cyfreithiwr, i un ai dod a'r mater i ben, neu drosglwyddo'r ffeil i Gyfreithiwr y Cyngor Tref, er mwyn symud ymlaen i gwblhau'r gwaith. **Derbyn.**
(b) Tir tu Cefn i'r Llys - Clerc yn adrodd fod perchennog y tir yn awyddus i symud ymlaen gyda'r gwerthiant a Chyfreithiwr y Cyngor Tref yn y broses o baratoi'r Dogfennau priodol ar gyfer hyn. **Derbyn.**

3 **Safle Lôn Las - Lawnt Fowlio -** Clerc yn adrodd ei fod wedi derbyn cais gan Gynrychiolydd Grŵp Prosiect Lleol yn holi am y posibilrwydd o ddefnyddio'r safle uchod i ymarfer "Yoga" yn yr awyr agored, a bydd yn dilyn rheolau Pellter Cymdeithasol COVID-19. Clerc yn cydnabod fod hyn yn syniad da i wneud defnydd o'r Lawnt ac o fudd i drigolion Llangefni. Clerc wedi esbonio i'r Ymgeisydd fod Cytundeb wedi bodoli yn y gorffennol rhwng y Cyngor Tref a'r Clwb Bowlio i ddefnyddio'r Lawnt. Clerc am holi gyda'r Clwb Bowlio os ydyn nhw am ddefnyddio'r safle eleni.
Yn y cyfamser, bydd Cynrychiolydd Grŵp Prosiect Lleol yn cael golwg ar safleoedd eraill addas o gwmpas y dref i ymarfer Yoga, yn cynnwys y Cwrt Tennis, ac adrodd yn ôl i'r Clerc yn dilyn ei ymchwil. **Derbyn.**

20/103 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

Grŵp Llandrillo Menai 25.02.2021 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Cyng. Richard Parry ydyw Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Grŵp uchod - Dim Trafodaeth.

20/104 CYLLID

1 I Dderbyn Mantolen Ariannol – Chwefror 2021

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.

Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol.

PENDERFYNWYD derbyn Mantolen Ariannol Mis Chwefror 2021.

2 **Cyfraniadau 2021/2021 –** Cyflwynwyd Rhestr o'r Cyfraniadau i'r Aelodau, er gwybodaeth. **Derbyn.**

20/105 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyng. Dylan W. Rees, Cynghorydd Sir, yn adrodd ar y canlynol :

- Treth y Cyngor - Gostyngiad o 3.75% i 2.75% i'w dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn 09.03.2021 - sef y codiad lleiaf ar draws Gogledd Cymru;
- COVID-19 yn fregus iawn ar Ynys Môn, niferoedd Mis Chwefror 2021 y gwaethaf , gyda thristwch 22 marwolaeth ;
- Rhai Ysgolion yn ail-agor ;
- Pwyllgor Scrutiny yn edrych ar y Cwrs Golff yn dilyn Ymgynghoriad i werthu'r tir fel tir amaethyddol – cynnig arall, sef ystyried newid Cynllun Datblygu Lleol o fewn y fframwaith a gwerthu'r tir i gynyddu mwy o arian;
- Argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith, os bu gwerthiant o'r tir, bu'r elw yn cael ei ddefnyddio tuag at ddatblygu gwasanaethau Plas Arthur;
- Cychwyn Cynllun Bwyd Da Môn yn Llangefni, Gwirfoddolwyr yn dosbarthu bwyd o fewn y Gymuned.

20/106 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

Y canlynol wedi eu dosbarthu i'r Aelodau trwy e-bost – Dim Trafodaeth :

1 Ombwdsman : Canllawiau Drafft Newydd – Cod Ymddygiad – 05.02.2021

2 Cynllun Llifogydd Cymuned Llangefni

3 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol 2021/2022

20/107 GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH : Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Chwefror 2021

1 Un Llais Cymru – Cadeirydd yn adrodd, oherwydd ymrwymiad arall, ei bod wedi ymddiheuro, ac ar ran Cyng. J. Egryn Lewis, na fydd Cynrychiolydd o Gyngor Tref Llangefni yn bresennol yn y Cyfarfod Dydd Gwener 5ed o Fawrth 2021. Cadeirydd yn gobeithio derbyn Adroddiad yn dilyn y Cyfarfod, i'w rannu gyda'r Aelodau, er gwybodaeth. **Derbyn.**

2 Materion Eraill : Derbyn.

20/108 I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER

1 Llywodraethwyr – Ysgol y Graig - Cadeirydd yn adrodd ei bod wedi ymddiswyddo fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Graig. Yn dilyn hyn, Cadeirydd yn adrodd ymhellach fod y Bwrdd Llywodraethwyr yn awyddus i gael Cynrychiolydd ac yn gofyn a oes unrhyw un o'r Aelodau gyda diddordeb yn y swydd wag. Cyng. Terry Jones yn awgrymu Cyng. Gwenan Ll. Evans fel ymgeisydd addas i ymuno ar y Bwrdd Llywodraethwyr. Cyng. Evans yn datgan ei fod yn fodlon derbyn y rôl yma.

PARHAD 20/108

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Victor Hughes yn Eilio i benodi Cyng. Evans.
PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr uchod a gofynnwyd i'r Clerc roi gwybod ysgrifenedig i Bennaeth Ysgol y Graig.

2 **Ymholiadau gan Cyng. John Lee -** Cyng. John Lee yn holi am ddatblygiadau yn ymwneud a phryniant y tir ar gyfer Mynwent Newydd ar ymylon y dref. Cadeirydd yn arwain Cyng. Lee trwy'r cynnydd hyd yn hyn ac yn adrodd fod gan y Cyngor Tref ddim dewis ond mynd ymlaen gyda'r pryniant oherwydd prinder tir addas i greu Mynwent i'r dref. Cadeirydd yn awgrymu'r posibilrwydd o rentu erwau o'r tir, ar gyfer porfa i anifeiliaid, i gynhyrchu incwm i'r dyfodol, a bu'r trefniadau yma yn cael eu gwneud trwy'r Swyddfa. Cadeirydd yn diolch i Cyng. John Lee am ei ddiddordeb.

20/109 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :** Nos Lun 12fed o Ebrill 2021 a, 6.30y.h. trwy gyfrwng TEAMS.

Cadeirydd yn diolch i'r Aelodau am ymuno yn y Cyfarfod.

Diwedd 7.00y.h.

CYNG. MARGARET THOMAS
CADEIRYDD